# Adolygiad Annibynol o'r Asesiad Taliad Annybyniaeth Personol

Paul Gray

Rhagfyr 2014

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag
Adran 89 y Ddeddf Diwygio Lles 2012

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at The national Archives, Kew, London TW9 4DU, anfonwch e-bost: **psi@nationalarchives. gsi.gov.uk**.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/ personalindependence-payment-pip-assessments-first-independent-review**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**Strategy, Policy and Analysis Group**
**Disability Benefits**
**PIP Policy Team**
**Caxton House**
**Ground Floor**
**Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk**

Gwe ISBN 978-1-78425-419-3

Rhif Adnabod 03121401 12/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair 2

# Rhagair

Dechreuaf drwy fynegi fy ngwerthfawrogiad cynnes i bawb sydd wedi rhoi yn hael eu hamser wrth ddarparu eu mewnbwn i’r Adolygiad hwn, gan gynnwys y rôl ‘cyfaill critigol’ cefnogol iawn a berfformiwyd gan aelodau’r Grŵp Craffu. Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i fy nhîm cymorth am eu gwaith caled, proffesiynoldeb a hiwmor da. Rwyf yn dal yn gyfrifol, wrth gwrs, am farn ac argymhellion yr Adroddiad hwn.

Cafodd amseriad y broses asesu ar gyfer Adolygiadau Annibynnol y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ei osod i lawr yn Neddf Diwygio Lles 2012. Wrth dderbyn gwahoddiad yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal yr Adolygiad cyntaf roeddwn yn ymwybodol fod, gyda gweithredu yn llai datblygedig nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, hyn yn rhy fuan i dynnu casgliadau pendant ar sawl agwedd. Nid yw’r dystiolaeth ar gael hyd yn hyn i wneud hynny yn ddibynadwy neu’n gadarn.

Yn yr un modd, roedd yn amlwg mai prif ffocws y farn a’r sylw cynnar ar PIP oedd y gwirionedd anffodus o oedi hir ac ôl-groniadau yn y broses asesu. Mae’r rhain wedi cael effaith fawr ar lawer o hawlwyr ar gyfer PIP hyd yn hyn. Mae’n hanfodol bod camau adferol yn cael ei gwblhau ac i osgoi problemau tebyg digwydd eto yn y dyfodol. Rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd hyn yn cael ei wneud, ac felly wedi gwneud y camau pellach y mae angen rhoi sylw iddynt y prif ffocws o’m Hadolygiad.

Wrth lunio fy argymhellion, rwyf wedi bod yn ymwybodol o rai ffactorau cyd-destunol eraill. Heb gwestiwn, mae cyflwyno PIP yn her cyflenwi fawr. Mae’n un o nifer y gweithrediadau busnes ar raddfa fawr y mae’r Adran yn atebol iddynt, lle mae sawl miliwn o hawlwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer profiad y cwsmer. Ac mae heriau mawr yn dilyn o asesu cymhwyster ar sail yr effaith swyddogaethol.

Y rhagosodiad allweddol yma yw bod gwahanol bobl sydd â’r un cyflyrau sylfaenol efallai hefyd yn profi effeithiau swyddogaethol sylweddol wahanol ar eu gweithgareddau byw o ddydd i ddydd ac ar eu symudedd. Bydd hyn yn adlewyrchu’r rhyngweithio cymhleth o lawer o ffactorau – gan gynnwys ffisiolegol, seicolegol, ysgogol a chymdeithasol. Felly, nid yw asesu swyddogaethol yn wyddoniaeth fanwl gywir. Mae asesu sawl miliwn o ddyfarniadau yn gywir ac yn gyson yn y modd hwn yn ymgymeriad aruthrol.

Mae hefyd yn un y mae ychydig o wledydd eraill, os o gwbl, yn ceisio mewn modd penodol a phwrpasol o’r fath, neu ar y fath raddfa. Tra bod cymariaethau rhyngwladol yn llawn anawsterau, i’r graddau y mae gwledydd eraill yn darparu cymhwyster eithaf tebyg, y maent yn eu cysylltu yn bennaf i amodau a phrosesau cymwys eraill.

Ymgymerwyd â dyluniad PIP hefyd mewn cyd-destun o galedi ariannol, yn erbyn cefndir lle yr oedd gwariant ar y budd-dal Lwfans Byw i’r Anabl (DLA) rhagflaenorol wedi tyfu’n sylweddol dros y degawdau cynharach. Felly, mae angen i baramedrau dylunio ar gyfer y system newydd gydbwyso buddiannau trethdalwyr gyda’r nod o dargedu ffurf newydd o gymorth ar bobl anabl â’r heriau mwyaf i aros yn annibynnol a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Mae PIP hefyd yn ffurfio rhan o wariant a reolir yn flynyddol yr Adran sydd erbyn hyn wedi'i gyfyngu gan yr hyn a elwir y Cap Lles. Gall costau a gynlluniwyd PIP sy'n uwch (neu is) na'r disgwyl felly erbyn hyn effeithio ar feysydd eraill o wariant nawdd cymdeithasol.

Yn erbyn y cefndir hwnnw rwyf wedi penderfynu na fyddai'n briodol yn yr Adolygiad hwn i ystyried a yw'r meini prawf asesu ar gyfer PIP y rhai cywir. Cawsant eu gosod yn y cam dylunio yn dilyn ymgynghoriad hir ac, er nad ydynt efallai yn ennyn cefnogaeth gyffredinol, rwyf wedi dod i'r casgliad y ffocws cywir ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol cyntaf hwn yw a ydynt yn cael eu cymhwyso yn y ffordd a fwriadwyd.

Mae'r trefniadau cytundebol rhwng yr Adran a'i phartneriaid cyflenwi ar gyfer PIP wedi bod yn destun i graffu Seneddol a sylwadau gan y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi dewis peidio ag edrych yn fanwl ar y materion hyn, er gall fy arsylwadau ac argymhellion bod â goblygiadau ar gyfer eu datblygiad.

Felly, rwyf wedi defnyddio fy Nghylch Gorchwyl i ganolbwyntio ar faterion sylfaenol a gwneud argymhellion dros amserlenni gwahanol mewn tri phrif faes:

Yn gyntaf, gwella profiad yr hawlydd.

Yn ail, egluro a gwella'r broses o gasglu tystiolaeth bellach.

Yn drydydd, sicrhau tegwch a chysondeb o ganlyniadau dyfarnu PIP.

Bydd yr amserlen a awgrymir ar gyfer gweithredu'n llawn yr argymhellion hyn yn dilyn Etholiad Cyffredinol Mai 2015. Yn ymwybodol bod PIP heb ei weithredu eto yng Ngogledd Iwerddon a'r cynnig diweddar y dylai PIP hefyd ddod yn fudd-dal datganoledig yn yr Alban, byddwn yn annog pleidiau gwleidyddol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn ogystal â rhanddeiliaid eraill â diddordeb i roi canfyddiadau'r Adolygiad hwn eu sylw cynnar.

Paul Gray
Rhagfyr 2014

ISBN 978-1-78425-419-3

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Rhagfyr 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**